# 5b Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion gwahaniaethu

## Stori Anya a Joe



Mae Anya a Joe'n hoffi gwisgo i fyny a mynd allan. Yn ddiweddar, aeth y ddau i'r sinema am y noson. Pan aethant i brynu eu tocynnau, daeth y rheolwr draw i'r swyddfa docynnau a sibrydodd rhywbeth yng nghlust y ferch wrth y til. Roedd Anya'n credu ei fod wedi dweud rhywbeth am bobl od. Gofynnon nhw am docynnau ar gyfer y ffilm o'u dewis, ac atebodd y ferch, "Mae'n ddrwg gen i, ond does dim tocynnau ar ôl ar gyfer y sioe honno". Yna, gofynnodd y ddau am docynnau ar gyfer ffilm wahanol, a'r un oedd yr ymateb i'w cais. Trodd y ddau i ffwrdd o'r ciw mewn siom; yna, clywodd Joe y cwpl nesaf yn y llinell yn gofyn am docynnau ar gyfer yr un ffilm, a gwerthwyd dau docyn iddynt.

## 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu


### Stori Stacey



Ymgeisiodd Stacey, sy'n bymtheg oed, am le yn ei thîm pêl droed dan 16 lleol. A hithau'n chwaraewr cyflym a medrus, gwnaeth argraff dda ar yr hyfforddwr, a oedd yn credu bod ganddi'r hyn oedd angen i ymuno â'r tîm. Fodd bynnag, ni wnaeth argraff mor dda ar y bechgyn yn y tîm. Anwybyddodd y bechgyn hi drwy gydol y sesiwn. Wrth iddi adael yn y car gyda'i thad, sylwodd fod y bechgyn wedi corneli'r hyfforddwr ac yn llawn cynnwrf wrth siarad ag ef. Diwrnod yn ddiweddarach, dywedodd yr hyfforddwr wrthi nad oedd wedi cyrraedd y nod ac na fyddai modd iddi ymuno â'r tîm. Roedd hyn er waetha'r ffaith mai hi oedd wedi sgorio'r nifer mwyaf o oliau.

# 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu

## Stori Seren



Clywodd Seren, sy'n bedair ar ddeg oed, ddwy ferch o'i dosbarth yn siarad am fynd i barti. Dechreuodd sgwrsio â nhw, a holodd parti pwy ydoedd, ac a fyddai modd iddi ymuno â nhw. Dywedodd y merched nad eu penderfyniad nhw ydoedd, ond y byddent yn gofyn i'r ferch a oedd yn cynnal y parti. Nes ymlaen, ar y bws adref, gofynnodd iddynt eto os fyddai modd iddi hi a'i chwaer ymuno â nhw. Edrychodd y ddwy ar ei gilydd yn anghyfforddus, a dweud na fyddai modd iddi fynd i'r parti. Holodd Seren beth oedd y broblem, gan ei bod hi'n adnabod y ferch yn dda. Dywedodd y merched nad oeddent yn credu byddai Seren yn ffitio i mewn gyda'r grŵp. Yn ddiweddarach, ar dudalen rhwydweithio cymdeithasol, sylwodd ar neges a oedd yn dweud "Gwasgwch 'hoffi' os ydych chi'n credu bod pobl sydd â gwallt coch yn bobl od'. Gwelodd fod y ddwy ferch wedi gadael negeseuon sarhaus ar-lein ynglŷn â phobl â gwallt coch.

# 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu

## Stori Jamie



Roedd Jamie'n chwarae rygbi i'w dîm lleol ac yn aelod poblogaidd o'r tîm. Roedd taith i'r Eidal wedi'i threfnu ac roedd Jamie'n disgwyl mai ef fyddai un o'r cyntaf i gael ei ddewis oherwydd ei enw da fel ciciwr gwych. Pedwar diwrnod cyn dewis y tîm, fe wnaeth Jamie ymddiried yn un o aelodau'r tîm ei fod yn hoyw. Dywedodd wrth y bachgen arall hwn ei fod yn bwriadu dweud wrth bobl eraill ar ôl y daith, ond ei fod yn methu ymdopi â dweud wrth unrhyw un ar y pryd.

Pan ddewiswyd y tîm, nid oedd Jamie ymysg y bechgyn a gafodd eu dewis. Clywodd drwy'r hyfforddwr eu bod wedi penderfynu dewis bachgen a oedd wedi trosglwyddo o dîm arall yn ei le.

## 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu

### Stori Kieran



Roedd Kieran newydd ddechrau ysgol newydd ac roedd yn cael trafferth gwneud ffrindiau. Oherwydd bod ei deulu'n symud o gwmpas llawer, roedd yn swil pan oedd yn cwrdd â phobl newydd. Er mwyn helpu, penderfynodd ei rieni gynnal parti pen-blwydd iddo yn y ganolfan hamdden leol. Gwahoddwyd ei holl ffrindiau dosbarth. I gychwyn, ymatebodd 18 o blant i'r gwahoddiad, gan nodi eu bod yn dod i'r parti. Dau ddiwrnod cyn y parti, sylwodd tad Kieran ar grŵp o rieni a oedd yn sibrwd ymysg ei gilydd ac yn edrych arno'n amharchus. Ar ben-blwydd Kieran, 4 o blant ddaeth i'w barti.

## 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu

### Stori Tanya



Mae Tanya wedi bod yn poeni ynglŷn â mynd i'r ddawns mae ei hysgol yn cynnal, ond mae hi eisiau ymuno yn yr hwyl. Mae ei chyd-ddisgyblion wedi bod yn siarad am beth maen nhw'n mynd i wisgo a phwy sy'n mynd gyda nhw i'r ddawns. Mae hi wedi prynu ei ffrog ac yn bwriadu mynd gyda'i ffrind gorau, Emily, mewn limwsîn wedi'i logi ynghyd â rhai o'r disgyblion eraill. Soniodd Emily wrth y lleill yr hoffai Tanya ddod gyda nhw yn y car, ond gwnaethant brotestio na fyddai digon o le pe bai hi'n dod. Ni chafodd Tanya fynd yn y limwsîn gyda'r gweddill, er bod digon o le. Bu'n rhaid iddi gyrraedd ar ei phen ei hun yng nghar ei thad.

## 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu


## Stori Sara



**Merch 16 oed yw Sara. Mae'n byw gyda'i rhieni. Ar hyn o bryd, mae'n astudio ar gyfer ei harholiadau TGAU, ond mae hi wedi gorfod gadael yr ysgol ac astudio o adref oherwydd bwlio eithafol gan ddisgyblion yn ei grŵp blwyddyn. Hyd yn oed adref, mae hi'n dioddef seiber-fwlio. Mae Sara'n anghyfforddus â'i rhyw. Cafodd ei geni'n fachgen, ond o oed cynnar iawn, roedd ganddi ysfa gref i fyw bywyd merch. Yn ddiweddar, dinistriwyd darn o waith ysgol pwysig ei hunig ffrind, Tasha, oherwydd ei bod hi'n helpu Sara i astudio ar gyfer ei harholiadau.**

# 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu

## Stori Margo



**Menyw 46 oed yw Margo. Mae'n byw mewn cymuned wledig fechan. Tair blynedd yn ôl, newidiodd o fod yn wryw i fod yn fenyw. Mae ganddi fab pedair oed, William, o'i pherthynas blaenorol. Mae'n dod i aros gyda hi bob yn ail benwythnos. Aeth Margo â William i'r parc un bore Sul ac roedd hi'n ei wylio'n chwarae ar y sleid. Stopiodd grŵp o blant hŷn ef rhag defnyddio'r sleid, a chlywodd Margo nhw'n dweud, 'Dwyt ti ddim yn gallu chwarae yn y parc hwn gan fod dy fam yn rhy ryfedd!' Dechreuodd William lefain, a mynnodd fynd adref. Gan sylwi bod y rhieni eraill yn edrych arni'n gas, er ei bod hi'n grac, gadawodd Margo'r parc ac nid yw hi wedi bod nôl yno ers hynny.**

# 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu

## Stori Gareth



**Mae Gareth yn 14 oed ac yn byw gyda'i dad anabl a'i chwaer hŷn. Bu ei dad mewn damwain car a achosodd niwed i'w ymennydd. O ganlyniad, ni all tad Gareth gerdded heb gymorth, mae'n cael anhawster siarad ac mae'n dioddef o epilepsi. Ynghyd â'i chwaer, mae Gareth yn treulio llawer o amser yn edrych ar ôl ei dad. Er bod tad Gareth yn hapus i'w ffrindiau ddod draw i'r tŷ, maen nhw'n gwneud esgusodion ynghylch pam na allant ddod draw ac mae Gareth yn teimlo'n fwyfwy unig ac yn cael ei adael allan o'u gweithgareddau. Pan ofynnodd i un o'i ffrindiau am hyn, dywedodd hi fod nifer o'i grŵp yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch ei dad ac nad oedden nhw am dreulio amser gydag ef bellach.**

# 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu

## Stori Ravi



Mae Ravi, sy'n 15 oed, newydd ddechrau ysgol newydd. Symudodd i Gymru o Lundain er mwyn byw'n agosach at ei deulu estynedig. Hindŵ yw Ravi. Mae Ravi wedi dod yn ffrindiau gyda rhai o'r bechgyn yn ei ddosbarth. Roedd un o'i ffrindiau'n cael parti ar gyfer ei ben-blwydd yn 16 oed mewn canolfan gymunedol leol. Roedd pawb wedi derbyn gwahoddiad, heblaw Ravi. Roedd Ravi'n credu bod y bachgen wedi anghofio amdano ac aeth i'r parti gyda rhai o'i ffrindiau eraill. Cafodd ei stopio wrth y drws a gofynnwyd iddo am ei wahoddiad. Esboniodd nad oedd wedi derbyn gwahoddiad, ond ei fod yn ffrind i'r bachgen dan sylw. Dywedodd yr oedolyn wrth y drws nad oedd yn cael mynediad heb wahoddiad, ac anfonodd Ravi i ffwrdd.

Trannoeth, aeth i'r ysgol. Ymddiheurodd ei ffrind iddo gan ddweud bod ei dad wedi talu am y parti a'i fod wedi colli ei dymer pan welodd enw Ravi ar y rhestr o wahoddedigion. Dywedodd nad oedd ei dad yn grefyddol, ac nad oedd eisiau dim i'w wneud ag unrhyw un a oedd yn grefyddol.

## 6. Achub Fi – Senarios yn ymwneud ag achosion camwahaniaethu

## Stori Kayleigh



Roedd Kayleigh, merch o Gymru, wedi bod allan yn beicio gyda rhai o'i ffrindiau pan syrthiodd oddi ar ei beic a niweidio ei braich. Roedd hi mewn poen ofnadwy, felly aeth ei ffrindiau gyda hi i'r ysbyty ar ôl galw ei mam ar ffôn symudol. Roedd yr ystafell frys yn brysur iawn pan gyrhaeddon nhw. Bu'n rhaid i Kayleigh aros am amser hir cyn cael ei galw. Ar ôl i Kayleigh fynd mewn i un o'r ystafelloedd triniaeth, cododd teulu a oedd heb fod yn aros ers amser hir i fyny. Clywodd ei ffrind y ddynes yn dweud wrth yr ysgrifenyddes mewn llais crac, "Mae'n dod i rywbeth pan eu bod **nhw'n** cael blaenoriaeth drosom **ni**." Roedd yr ysgrifenyddes yn synnu at haerllugrwydd y ddynes a dewisodd anwybyddu'r sylw. Yn ddiweddarach, roedd mam Kayleigh'n ceisio prynu potel o ddŵr i Kayleigh o beiriant gwerthu; fodd bynnag, nid oedd ganddi'r arian cywir. Roedd menyw arall yn ceisio helpu pan ymunodd y ddynes grac â nhw. Er bod ganddi'r arian i gyfnewid, gwrthododd wneud hynny, ac ar ôl prynu ei diod ei hun aeth yn ôl i'w sedd gan fwmian rhywbeth am wyneb y bobl **yna**.